Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

# Y Brifysgol Agored

Walton Hall
Milton Keynes
MK7 6AA

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024 – Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â'r Brifysgol Agored

Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) y Brifysgol Agored yn cynnwys y Brifysgol Agored a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod o bartneriaid, sef: Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, chwe ysgol arweiniol a 325 o ysgolion partneriaid sydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Yn y Brifysgol, daw AGA dan yr Ysgol Addysg, Plentyndod, Ieuenctid a Chwaraeon.

Mae'r bartnerieth yn darparu un rhaglen AGA sydd â phedwar llwybr, wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o fis Ebrill 2020 ymlaen:

- TAR (Cymru), Llwybr Cyflogedig (Cynradd)
- TAR (Cymru), Llwybr Rhan-amser (Cynradd)
- TAR (Cymru), Llwybr Cyflogedig (Uwchradd)
- TAR (Cymru), Llwybr Rhan-amser (Uwchradd)

Ar y llwybr cyflogedig, mae myfyrwyr yn astudio ochr yn ochr â'u dyletswyddau ysgol presennol yn rhan o'u cyflogaeth amser llawn mewn ysgol gynradd neu uwchradd. Ar y llwybr rhan-amser, mae myfyrwyr yn astudio wrth weithio mewn cyflogaeth ran-amser neu o amgylch ymrwymiadau bywyd eraill. Mae pob llwybr i addysgu yn dilyn model dysgu o bell, sy'n cyfuno astudio deunyddiau ar-lein yn annibynnol â seminarau byw a chyfnodau o brofiad ymarferol yn yr ysgol.

Mae'r rhaglen yn rhaglen ôl-raddedig dwy flynedd a gellir ei hastudio naill ai yn Gymraeg neu Saesneg. Ar y llwybr TAR uwchradd, gall athrawon da hyfforddiant astudio un o'r pynciau canlynol: gwyddoniaeth, mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Saesneg gyda drama, Saesneg gyda'r cyfryngau, dylunio a thechnoleg, neu gyfrifiadura/TGCh.

Mae 65 o fyfyrwyr yn dilyn y llwybr cyflogedig TAR Cynradd ac mae 16 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 71 o fyfyrwyr ar y TAR Cynradd rhan-amser, gyda phedwar ohonynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y llwybr cyflogedig TAR Uwchradd, mae 88 o athrawon dan hyfforddiant, gyda 40 ohonynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y llwybr TAR Uwchradd rhan-amser 14 o fyfyrwyr, y mae un ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rhaglen TAR yn rhan o'r Cynllun Hyfforddi Athrawon yn Seiliedig ar Gyflogaeth.

## Crynodeb

Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig llwybr nodedig a chynhwysol i'r proffesiwn addysgu, wedi'i ategu gan ymrwymiad cryf i gyfiawnder cymdeithasol. Fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2020 ac mae'r bartneriaeth wedi datblygu yn ystod cyfnod arbennig o heriol ar gyfer addysg, a oedd yn cynnwys pandemig COVID-19. A hithau'n bartneriaeth gymharol newydd, mae'n esblygu, gydag arweinwyr yn awyddus i weithredu ar adborth i wella darpariaeth.

Mae cwricwlwm y rhaglen yn cynnig cyfleoedd sydd wedi'u strwythuro'n dda i fyfyrwyr integreiddio theori ag arfer trwy ddysgu cyfunol ac o bell. Mae Cwricwlwm i Gymru yn amlwg mewn unedau sy'n cael eu haddysgu a thasgau yn yr ysgol. Mae tiwtoriaid y brifysgol yn meithrin amgylchedd dysgu ar-lein diogel a chefnogol. Maent yn adnabod eu myfyrwyr yn dda ac yn defnyddio ystod o ddulliau addas i'w hannog ac ymgysylltu â nhw. Fodd bynnag, mae ansawdd cymorth gan diwtoriaid a mentoriaid i helpu myfyrwyr i gysylltu theori ag arfer yn yr ystafell ddosbarth, neu fyfyrio ar eu dysgu blaenorol, yn anghyson. O ganlyniad, nid yw gallu athrawon dan hyfforddiant i fyfyrio'n feirniadol ar ymchwil, eu haddysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Gwna lawer o athrawon dan hyfforddiant gynnydd cadarn, gydag ychydig o fyfyrwyr cynradd cyflogedig yn cyflawni'n arbennig o dda. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn datblygu medrau cryf o ran rheoli'r ystafell ddosbarth, yn cymhwyso strategaethau addysgu priodol ac yn llunio adnoddau o ansawdd uchel. Serch hynny, mae tua hanner ohonynt yn cael trafferth nodi amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion ac mae gan ychydig ohonynt fylchau pwysig yn eu gwybodaeth bynciol a'u dealltwriaeth addysgegol. Er bod myfyrwyr yn dangos cymhwysedd digidol cryf, yn gwneud cynnydd cadarn mewn rhifedd ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda, mae gwallau ysgrifennu mynych yn tanseilio eu heffeithiolrwydd fel modelau rôl ar gyfer llythrennedd.

At ei gilydd, mae athrawon dan hyfforddiant yn dangos lefelau uchel o broffesiynoldeb a gwydnwch. Mae diwylliant cadarnhaol o les a chynhwysiant yn sicrhau bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff y brifysgol a mentoriaid. Mae darpariaeth a chymorth teilwredig ar gyfer myfyrwyr niwroamrywiol, athrawon dan hyfforddiant LHDTC+ a'r rhai o gefndiroedd mwyafrif byd-eang yn cyfrannu'n gadarnhaol ar brofiad y myfyriwr. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ei systemau monitro yn dda i nodi a chefnogi myfyrwyr mewn angen.

Er bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn elwa ar berthynas waith gadarnhaol â mentoriaid a thiwtoriaid, mae ansawdd y mentora yn amrywio'n fawr. Er bod llawer o fyfyrwyr yn cael arweiniad defnyddiol, nid yw lleiafrif ohonynt yn elwa ar adborth sy'n nodi'n glir y meysydd i'w gwella yn eu haddysgu neu eu gwaith academaidd. Nid yw dyluniad y

rhaglenni, yr addysgu a'r mentora yn rhoi digon o ystyriaeth i fannau cychwyn amrywiol myfyrwyr. Mae hyfforddiant i fentoriaid yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithdrefnol ac nid yw'n eu paratoi'n ddigon da i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol. O ganlyniad, mae cynnydd yn dueddol o fod yn fwy anghyson ymhlith athrawon uwchradd dan hyfforddiant ac mae'r rhai sydd ar y llwybrau rhan-amser (cynradd ac uwchradd) yn gwneud cynnydd llai cynaledig, ar y cyfan.

Caiff arweinyddiaeth ar draws y bartneriaeth ei nodweddu gan weledigaeth strategol glir, ethos cydweithredol ac uchelgais i arloesi mewn AGA. Ceir strwythurau llywodraethu addas ac mae ysgolion arweiniol yn chwarae rôl sylweddol wrth lunio'r modd y caiff y rhaglen ei chyflwyno. Mae datblygu diwylliant ymchwil yn nodwedd nodedig o hunaniaeth y bartneriaeth sy'n dod i'r amlwg. Mae ymchwilio i arfer yr ystafell ddosbarth wedi'i ymwreiddio yn y rhaglen TAR ac mae penodi cymrawd ymchwil wedi arwain at arweinyddiaeth strategaeth effeithiol o ran y maes hwn.

Wrth i'r bartneriaeth dyfu, mae wedi adolygu ei phrosesau a'i systemau. Fodd bynnag, nid yw cyfathrebu ar draws y bartneriaeth yn effeithiol hyd yn hyn ac mae gormod o amrywiad o ran pa mor dda y mae ysgolion yn deall disgwyliadau'r rhaglen. Nid yw sicrhau ansawdd profiadau yn yr ysgol a mentora yn gyson nac yn drylwyr. Nid yw'r bartneriaeth yn casglu, nac yn defnyddio, tystiolaeth uniongyrchol yn gynhwysfawr i lywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Nid yw ychwaith yn dwyn i gyfrif yn ddigon da y rhai sy'n gyfrifol am gefnogi athrawon dan hyfforddiant neu fonitro ansawdd. Mae hyn yn cyfrannu at ddiffygion mewn tua hanner y mentora a chynnydd cyfyngedig ychydig o fyfyrwyr.

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth strategol, hunanwerthuso a sicrhau ansawdd, gyda ffocws penodol ar ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol i lywio gwelliant

A2 Gwella ansawdd a chysondeb mentora ar draws y bartneriaeth, gan gynnwys cryfhau cyfathrebu rhwng ysgolion a'r brifysgol

A3 Gwella dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o addysgeg effeithiol, eu cynllunio, myfyrio'n feirniadol a'u medrau ysgrifennu personol

A4 Mireinio dyluniad y rhaglen i gefnogi cynnydd ac ymgysylltiad myfyrwyr yn well

A5 Gwella cywirdeb ac effeithiolrwydd asesu tiwtoriaid a mentoriaid

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y bartneriaeth yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y bartneriaeth ymhen blwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Gwna lawer o fyfyrwyr ar bob rhaglen gynnydd cadarn tuag at ddod yn athrawon cymwysedig. Mae ychydig o fyfyrwyr ar y rhaglen TAR cynradd cyflogedig yn gwneud cynnydd arbennig o gryf ac yn cyflawni'n dda iawn. Ar y rhaglenni TAR uwchradd, mae cynnydd yn dueddol o fod yn fwy amrywiol. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr ar y llwybr rhan-amser ar draws y rhaglenni cynradd ac uwchradd yn gwneud cynnydd llai cynaledig yn ystod eu dwy flynedd o astudio. Ar draws pob rhaglen, gwna ychydig o fyfyrwyr gynnydd cyfyngedig yn unig ac mae angen cryn gefnogaeth arnynt gan diwtoriaid y brifysgol a mentoriaid yn yr ysgol i gyflawni Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Ar draws pob rhaglen, mae myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth gadarn am y rhan fwyaf o ofynion y cwricwlwm yng Nghymru. Yn ystod sesiynau ar-lein y brifysgol, mae ychydig o fyfyrwyr ar y rhaglenni cynradd ac uwchradd yn dangos chwilfrydedd a brwdfrydedd gwirioneddol wrth archwilio Cwricwlwm i Gymru. Mae'r myfyrwyr hyn yn meddwl yn ddwys am sut gallai addysgu a phrofiadau dysgu gefnogi disgyblion orau i ddod yn ddysgwyr ac yn ddinasyddion llwyddiannus.

Yn ystod y rhaglen ddwy flynedd, mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn datblygu gwybodaeth gadarn am y pynciau a'r cyfnodau oedran y maent yn paratoi i'w haddysgu. Gwnânt gysylltiadau priodol rhwng lles a gallu disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o fyfyrwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o addysgeg effeithiol ac mae bylchau pwysig yn eu gwybodaeth bynciol. Er bod gan fyfyrwyr cynradd ddealltwriaeth well yn gyffredinol o sut i gynllunio a chyflwyno meysydd dysgu a phrofiad na'u cyfoedion uwchradd, nid yw eu gwybodaeth am sut i addysgu darllen yn effeithiol wedi'i datblygu'n ddigon da.

At ei gilydd, mae gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr ddealltwriaeth gadarn o'r broses ar gyfer cynllunio gwersi. Maent yn cynllunio'n addas ar gyfer cyfres o brofiadau dysgu ac maent yn aml yn ystyried sut i gwneud dysgu disgyblion yn berthnasol i gyd-destun eu hysgol a'u hardal leol. Mae llawer o fyfyrwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Maent yn rhagweld camsyniadau posibl y gallai fod gan ddisgyblion ac yn ystyried sut gallant fynd i'r afael â'r rhain yn ystod gwersi. Mae'r mwyafrif ohonynt yn nodi geirfa berthnasol ac yn paratoi cwestiynau defnyddiol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae ychydig o athrawon cynradd dan hyfforddiant yn dangos cryfderau nodedig mewn cynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion dros gyfnod. Yn yr achosion hyn, mae myfyrwyr yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn meddwl yn ofalus am sut i fodloni eu hanghenion unigol. Maent yn cymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu o ddarllen a'u hymchwil ystafell ddosbarth eu hunain i lywio eu harfer, er enghraifft wrth ddylunio

prosiectau amgylcheddol dychmygus sy'n creu cysylltiadau pwrpasol ar draws meysydd y cwricwlwm. Mae'r profiadau ysgogol hyn nid yn unig yn cefnogi disgyblion i ddatblygu ystod eang o fedrau pwnc a thrawsgwricwlaidd, ond hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad disgyblion o 'gynefin' (perthyn).

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cydnabod bod y 'pedwar diben' yn sail i ddylunio cwricwlwm ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae camddealltwriaeth gyffredin, sy'n cael ei hatgyfnerthu gan y templed cynllun gwersi y maent yn ei ddefnyddio, yn eu harwain i nodi 'dibenion' penodol fel deilliannau gwersi unigol, yn hytrach na deall bod y rhain yn cynrychioli nodau cyffredinol ar gyfer datblygiad dysgwyr. Er bod llawer o fyfyrwyr yn cynllunio profiadau dysgu addas sy'n briodol ar gyfer oedrannau disgyblion, mae tua hanner ohonynt yn cael trafferth diffinio amcanion dysgu neu feini prawf llwyddiant clir a manwl. Mae'r myfyrwyr hyn yn ysgrifennu amcanion sy'n rhy eang neu'n disgrifio'r gweithgareddau y bydd disgyblion yn eu cwblhau, yn hytrach na'r dysgu arfaethedig. O ganlyniad, maent yn ei chael hi'n anodd asesu cynnydd disgyblion, myfyrio ar eu haddysgu eu hunain neu gynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Yn eu hysgolion 'ymarfer dysgu', mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â disgyblion ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio hiwmor yn briodol i helpu i feithrin hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu. Maent yn datblygu strategaethau llwyddiannus i reoli ymddygiad disgyblion yn dda, yn sefydlu arferion effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac, yn yr ychydig o achosion gorau, yn trefnu'r ystafell ddosbarth mewn ffyrdd sy'n hybu dysgu annibynnol disgyblion. Yn aml, mae myfyrwyr yn llunio adnoddau o ansawdd uchel, sy'n briodol ar gyfer yr oedran, sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn cefnogi eu cynnydd. Mae gan ychydig o fyfyrwyr ar y llwybr cynradd ddealltwriaeth ddatblygedig dros ben o sut mae disgyblion yn dysgu. Maent yn addasu eu haddysgu'n hyderus, er enghraifft wrth symud o weithio â disgyblion cynradd hŷn i'r dosbarthiadau ieuengaf. Maent yn ymateb yn hyblyg i ddiddordebau a syniadau disgyblion, fel darparu cynhwysion i blant meithrin pan fyddant yn gofyn yn ddigymell i wneud eu toes eu hunain, ac yna eu cynorthwyo i ddefnyddio iaith fathemategol wrth fesur.

At ei gilydd, mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol, gan gydbwyso addysgu uniongyrchol, dosbarth cyfan â chyfleoedd i ddisgyblion weithio mewn parau a grwpiau ar weithgareddau ymarferol a thasgau trafod. Yn yr enghreifftiau gorau, mae myfyrwyr yn meddwl yn greadigol am sut i gyflwyno cysyniadau newydd i ddisgyblion ac yn defnyddio 'bachau', fel delweddau, ffilm a cherddoriaeth i ennyn eu diddordeb ar ddechrau gwersi. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n effeithiol trwy roi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir ac yn modelu defnydd da o iaith lafar i ddisgyblion. Mae ychydig o fyfyrwyr yn rheoli gwaith oedolion eraill yn fedrus ac mae ganddynt bresenoldeb cymhellol yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ystod eu mewnbynnau addysgu ac wrth fonitro cynnydd yn ystod gwers, mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio holi'n briodol i wirio dealltwriaeth disgyblion o'r hyn y maent yn ei ddysgu. Yn gyffredinol, maent yn cefnogi disgyblion yn addas yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft trwy gynnig arweiniad pellach neu roi enghreifftiau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y myfyrwyr yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol i helpu disgyblion i gydnabod pa mor dda y maent yn gwneud cynnydd, nac yn defnyddio ystod ddigon eang o gwestiynau i ddyfnhau meddwl disgyblion. Mae lleiafrif ohonynt yn cael trafferth cydbwyso cymorth personol i ddisgyblion unigol â chadw trosolwg clir o'r dosbarth cyfan. Yn aml, mae hyn oherwydd, wrth gynllunio, nid ydynt yn ystyried yn ddigon gofalus sut y byddant yn cefnogi ac yn herio grwpiau gwahanol o ddisgyblion i wneud cynnydd.

Ar adegau, oherwydd nad yw myfyrwyr wedi nodi ffocws clir ar gyfer dysgu ac mae eu disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel, mae rhai ohonynt yn ei chael hi'n anodd cymell disgyblion. O ganlyniad, mae rhediad yr addysgu'n arafu, mae eu holi'n brin o bwrpas ac mae disgyblion yn mynd yn oddefol. Mewn ychydig o achosion, mae'r gweithgareddau y mae myfyrwyr yn eu cynllunio yn aml yn rhy hawdd ac nid ydynt yn ddigon difyr, sy'n golygu eu bod yn cael trafferth bodloni anghenion dysgu disgyblion yn ddigon da.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn cydnabod pwysigrwydd datblygu medrau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion ac mae mwyafrif ohonynt yn gwneud hynny'n briodol yn ystod eu profiad ysgol. Mae medrau digidol y myfyrwyr eu hunain yn gryfder ac mae eu medrau rhifedd yn gadarn. Yn gyffredinol, er bod myfyrwyr yn ysgrifennu ag eglurder rhesymol yn eu hiaith astudio (Cymraeg neu Saesneg), maent yn aml yn gwneud camgymeriadau sillafu, gramadegol ac wrth lunio brawddegau. Mae hyn yn effeithiau ar eu gallu i fodelu medrau ysgrifennu cryf yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn siarad â chywirdeb addas ac yn defnyddio terminoleg ffurfiol, sy'n benodol i'r pwnc yn hyderus, er enghraifft wrth drafod materion addysgol mewn seminarau. Maent yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol yn ystod gwersi. At ei gilydd, gwna'r rhan fwyaf o fyfyrwyr gynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn, ond mae lleiafrif ohonynt yn colli cyfleoedd i gefnogi datblygiad Cymraeg disgyblion mewn gwersi.

Yn eu sesiynau prifysgol ar-lein, mae llawer o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n briodol, gan gymryd rhan mewn trafodaethau a chyfrannu ymatebion ysgrifenedig trwy'r nodweddion negeseua neu sgwrsio a ddarperir. Mae ychydig ohonynt hefyd yn gofyn cwestiynau perthnasol i staff o ysgolion arweiniol y bartneriaeth, sy'n cyflwyno darlithoedd i'r garfan gyfan. Mae myfyrwyr yn gweld seminarau'n arbennig o werthfawr pan fydd tiwtoriaid yn

cynnig cyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu profiadau ysgol a'u rhannu a'u cymheiriaid mewn grwpiau llai. Yn y lleoliadau hyn, mae llawer o fyfyrwyr yn trafod eu llwyddiannau a'u heriau'n hyderus, ond anaml y maent yn creu cysylltiadau penodol rhwng eu profiadau a theori neu syniadau addysgol perthnasol.

Mewn lleiafrif o sesiynau lle mae tiwtoriaid yn cynnig cymorth effeithiol ar gyfer meddwl beirniadol myfyrwyr, mae myfyrwyr yn codi pynciau meddylgar i'w trafod, wedi'u llywio gan eu harsylwadau yn yr ystafell ddosbarth neu ddarllen academaidd. Er enghraifft, mae myfyrwyr uwchradd Saesneg yn myfyrio ar sut y gellid addasu a chymhwyso dulliau addysgegol a welwyd mewn pynciau heblaw'r un y maent yn hyfforddi i'w addysgu yn eu harfer eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn defnyddio unedau astudio annibynnol ar-lein yn briodol, er bod y graddau y maent yn gwneud hynny yn amrywio'n sylweddol. Mewn lleiafrif o achosion, lle mae ymgysylltu ar ei gryfaf, mae myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu seminarau a'u darlithoedd ac maent yn defnyddio eu darllen yn effeithiol i gefnogi eu gweithgareddau dysgu seiliedig ar arfer. Mae myfyrwyr yn ymateb yn arbennig o gadarnhaol i'r tasgau strwythuredig hyn. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n gydwybodol â phynciau y maent yn eu hystyried yn berthnasol i'w datblygiad, fel ennill dealltwriaeth well o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu dosbarthiadau.

Yn eu haseiniadau academaidd, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn defnyddio ystod eang o destunau cyfredol yn addas, er enghraifft i gefnogi eu dealltwriaeth o fethodoleg ymchwil. Maent yn cyfeirio'n briodol at bolisi a chyd-destun addysgol Cymru. Mae ychydig o fyfyrwyr yn dangos medrau cryf wrth gyfosod a dadansoddi canfyddiadau ymchwil. Maent yn gwerthuso safbwyntiau gwahanol ac yn ysgrifennu â ffurfioldeb addas. Mae llawer o fyfyrwyr yn dangos ymwybyddiaeth o ystod o ddulliau ymchwil ac yn cydnabod pwysigrwydd casglu a dadansoddi data. Yn aml, mae myfyrwyr cynradd yn nodi prosiectau ymchwil ymarferol sy'n cyd-fynd yn dda â'u haddysgu neu agweddau ar wella ysgol sy'n berthnasol i'w lleoliadau. Fodd bynnag, nid yw cyfran nodedig o fyfyrwyr uwchradd yn dewis ffocws ymchwil sy'n berthnasol i'w datblygiad fel athrawon. Yn gyffredinol, nid ydynt yn archwilio casglu a dadansoddi data yn ddigon manwl, nac yn beirniadu ffynonellau â digon o drylwyredd. Mae'r mwyafrif ohonynt hefyd cael trafferth strwythuro eu gwaith ysgrifenedig mewn ffordd sy'n cyflwyno dadl gydlynus a rhesymegol.

### Lles ac agweddau at ddysgu:

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn rhagweithiol ac yn hunangymhellol. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda, yn unol â disgwyliadau'r ysgol a'r rhaglen. Maent yn dangos lefelau uchel o broffesiynoldeb, yn gweithio'n dda â phobl eraill ac yn ceisio cymorth a chyngor yn weithredol, yn ôl yr angen. Mae'r rhan fwyaf

o athrawon dan hyfforddiant yn brydlon ac yn mynychu sesiynau wedi'u haddysgu yn rheolaidd.

Yn gyffredinol, er bod llawer o athrawon dan hyfforddiant yn cydbwyso ymrwymiadau gwaith a theulu, maent yn cymhwyso eu medrau trefnu yn dda i reoli eu llwyth gwaith. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan eu cymheiriaid, er enghraifft trwy grwpiau sgwrsio ar-lein sy'n helpu i ffurfio rhwydweithiau cymorth anffurfiol a chreu ymdeimlad o gymuned. Fodd bynnag, mae ychydig o athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig y rhai sy'n dilyn y llwybr rhan-amser neu sydd mewn grwpiau pwnc uwchradd bach, yn teimlo'n fwy ynysig, yn enwedig pan mai nhw yw'r unig fyfyriwr yn ysgol eu lleoliad. At ei gilydd, mae'r graddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn cydweithio â'u cymheiriaid sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion eraill yn gyfyngedig, yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd strwythuredig i wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant wedi meithrin perthynas waith gref â'u mentoriaid a staff eraill yr ysgol ac maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth fuddiol sy'n cael ei darparu ar gyfer eu lles. Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn teimlo eu bod yn cael cyngor addas ar sut i gadw'n iach ac yn ddiogel yn y brifysgol a'r ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu. Maent yn gwybod at bwy i droi, yn yr ysgol ac yn y brifysgol, os bydd angen cymorth neu arweiniad arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn cydweithio'n dda â staff yn yr ysgol a, lle bo'n briodol, maent yn mynychu cyfarfodydd a gweithgareddau ysgol-gyfan eraill, y maent yn eu gwerthfawrogi. Mae llawer ohonynt yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau gwella ysgol neu i helpu â gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn briodol ac mae ychydig ohonynt yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol gwerthfawr, fel arwain agweddau ar gynllunio cwricwlwm ysgol gyfan a rhannu eu dysgu â phobl eraill mewn sesiynau hyfforddi staff. Yn yr ychydig o enghreifftiau cryfaf, mae hyn yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion y tu hwnt i ystafelloedd dosbarth yr athrawon dan hyfforddiant eu hunain. Er enghraifft, maent yn helpu i ddylanwadu ar ymagweddau tuag at ddysgu sylfaen a darpariaeth yn eu hysgolion, fel datblygu ystafell synhwyraidd ar gyfer disgyblion iau sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn myfyrio'n briodol ar eu cynnydd gyda'u mentoriaid ac, mewn llawer o achosion, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu eu hunain sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn myfyrio'n feirniadol ar eu haddysgu trwy ddeialog â thiwtoriaid a mentoriaid, neu yn eu gwerthusiadau ysgrifenedig, yn rhy amrywiol. Anaml iawn y maent yn creu cysylltiadau rhwng eu harfer yn yr ystafell ddosbarth a'u dysgu am theori neu syniadau addysgol. Yn rhy aml, nid ydynt yn

canolbwyntio'n ddigon dwys ar ddadansoddi effaith eu cynllunio a'u haddysgu ar ddysgu disgyblion. Mae hyn yn golygu, ar y cyfan, mai dim ond megis dechrau datblygu y mae medrau myfyrio beirniadol y rhan fwyaf o fyfyrwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu hymgysylltiad â gweithgareddau ymarfer dysgu a'u tasgau asesu. Mae ychydig ohonynt yn elwa'n sylweddol ar eu cyfranogiad mewn prosiectau ymchwil. Maent yn cydnabod sut y gall cyfleoedd tebyg ehangu eu datblygiad, er enghraifft i ymgysylltu ag arferion arloesol yn yr ystafell ddosbarth, gweithio ar y cyd ag ystod o ymarferwyr ysgol neu i ymgysylltu'n llwyddiannus â rhieni.

Mae myfyrwyr yn ymateb yn briodol i systemau'r bartneriaeth ar gyfer casglu eu hadborth, er enghraifft trwy lenwi gwerthusiadau modiwlau a rhannu eu barn yn ystod seminarau. Mae aelodau'r 'Senedd Fach' yn cynrychioli eu cymheiriaid yn briodol trwy gyfarfodydd rheolaidd llais y myfyriwr. Cânt ddylanwad cadarnhaol ar agweddau ar y rhaglen, fel gwella amserlennu sesiynau yn y brifysgol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ar ddechrau eu hastudiaethau.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau proffesiynol fel athrawon. Maent yn deall eu rôl o ran cefnogi lles disgyblion a sut mae ysgolion yn cefnogi diwylliant o ddiogelwch. Er bod gan lawer ohonynt ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant ysgol ac yn gwybod sut i ymateb yn briodol, mae ychydig ohonynt yn llai clir ynghylch eu cyfrifoldebau i helpu i gadw disgyblion yn ddiogel rhag perygl radicaleiddio.

## Addysgu a phrofiadau dysgu:

Mae rhaglen TAR y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig profiadau dysgu tra ystyriol a nodedig i athrawon dan hyfforddiant. Mae'r rhaglen wedi'i thanategu gan fframwaith cysyniadol clir sy'n seiliedig ar ymchwil ac mae wedi'i llunio gan ymrwymiad cryf i ehangu mynediad i'r proffesiwn addysgu. Mae'r bartneriaeth wedi dylunio dulliau dysgu cyfunol a dysgu o bell priodol i alluogi myfyrwyr i ymgysylltu â phrofiadau dysgu academaidd ac ymarferol mewn modd hyblyg. Fodd bynnag, nid yw dyluniad rhaglen ar gyfer y flwyddyn gyntaf o astudio yn rhoi digon o ystyriaeth o brofiadau a mannau cychwyn gwahanol athrawon dan hyfforddiant.

Un o nodweddion allweddol y rhaglen yw ei model cwricwlwm troellog, lle mae myfyrwyr yn ailedrych ar themâu allweddol wrth iddynt symud o ymgyfarwyddo i atgyfnerthu. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr ailedrych ar gysyniadau allweddol a dyfnhau eu dealltwriaeth ohonynt dros gyfnod. Mae'r bartneriaeth wedi rhoi proses adolygu 'cynnal a chadw' dreigl ar waith er mwyn sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn parhau i gyd-fynd â'r polisïau addysgol diweddaraf, ymchwil gyfredol a thueddiadau sy'n

dod i'r amlwg a nodwyd trwy asesiadau ac adolygiadau cynnydd myfyrwyr. Mae tiwtoriaid yn dilyniannu modiwlau â chysylltiadau clir rhwng theori ac arfer, er mwyn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr fagu hyder wrth gymhwyso ymchwil a pholisi mewn cyd-destunau ystafell ddosbarth go iawn. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer addysgol yn mynd i'r afael ag agweddau allweddol ar addysgu a dysgu yn ddigonol. Er enghraifft, nid yw cwricwlwm y rhaglen yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant yn ddigon da i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o ddulliau effeithiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion.

Caiff cwricwlwm y rhaglen ei gyfoethogi ymhellach trwy ei gweithgareddau ymarfer dysgu, sydd â'r nod o gyfuno ymchwil ac arfer mewn ffyrdd sy'n helpu myfyrwyr i gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol yn ystyrlon yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd ymarferol i athrawon dan hyfforddiant gymryd rhan mewn tasgau ymholi buddiol yn yr ysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu rhifedd disgyblion trwy ddysgu yn yr awyr agored a defnyddio deallusrwydd artiffisial i gefnogi eu medrau digidol. Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r tasgau hyn fel modd o arbrofi â strategaethau newydd a chasglu tystiolaeth sy'n llywio eu datblygiad proffesiynol fel athrawon.

Mae'r rhaglen yn darparu ystod o ddeunyddiau ar-lein o ansawdd uchel, wedi'u hategu gan seminarau a darlithoedd byw. Mae unedau astudio ar-lein yn cynnwys adnoddau amlgyfrwng difyr, enghreifftiau ymarferol â fideos enghreifftiol o addysgu, a chrynodebau defnyddiol o ymchwil academaidd. Mae'r deunyddiau hyn yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i ystyried eu dysgu yn gysylltiedig â'u harfer yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae tasgau fel 'cynllunio gwrthdro' yn helpu myfyrwyr i feddwl am y medrau, y wybodaeth a'r dulliau addysgu sydd eu hangen i helpu disgyblion i gyflawni nod dysgu cyffredinol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae gan unedau astudio ormod o gynnwys, sy'n llesteirio gallu athrawon dan hyfforddiant i gwblhau tasgau neu ymgysylltu'n ystyrlon â myfyrio ar eu cynnydd.

Yn gyffredinol, mae seminarau wedi'u dylunio'n dda i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddulliau effeithiol o addysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn hybu trafodaeth weithredol, yn herio athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu'n feirniadol â materion addysgegol ac yn creu lle i fynd i'r afael â chamsyniadau. Ym mwyafrif y seminarau lle mae'r cyfleoedd hyn ar gael, mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol. Maent yn gwerthfawrogi sut mae'r sesiynau hyn yn dyfnhau eu meddwl, yn annog darllen ehangach ac yn eu hysbrydoli i archwilio dulliau newydd o addysgu a dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn darparu profiadau ysgol priodol ar draws cyfnodau oedran a lleoliadau. Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn elwa ar leoliadau mewn grwpiau blwyddyn gwahanol, gan eu helpu i ddeall dulliau effeithiol o addysgu a sut mae

disgyblion yn gwneud cynnydd ar wahanol gyfnodau yn eu dysgu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd y profiadau y mae myfyrwyr yn eu cael yn eu hail leoliad ysgol, sy'n cyfyngu ar fudd cyffredinol y rhan hon o'u hyfforddiant. Mae strwythur y rhaglen ran-amser, sy'n aml yn cynnwys profiadau lleoliad mwy tameidiog, hefyd yn ei gwneud yn fwy heriol i sicrhau parhad yn natblygiad addysgu'r myfyrwyr hyn.

Mae'r cymorth sy'n cael ei roi i ddatblygu cynllunio gwersi myfyrwyr yn briodol, gyda thempledi strwythuredig yn cael eu cyflwyno'n gynnar yn y rhaglen. Mae'r templedi hyn yn cynnig sgaffald gwerthfawr, gan mwyaf, sydd, pan gânt eu defnyddio'n dda, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu medrau cynllunio a dechrau creu cyfresi o wersi sy'n cefnogi dilyniant yn nysgu disgyblion.

Mae'r bartneriaeth yn dechrau mabwysiadu dulliau defnyddiol i helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu medrau myfyriol. Er enghraifft, mae myfyrwyr yn defnyddio platfform ar-lein i rannu gwersi wedi'u recordio â thiwtoriaid, i drafod eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Er bod yr arfer hon yn ei chamau datblygu cynnar, yn yr ychydig o achosion cryfaf, mae athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn rheolaidd i fyfyrio'n feddylgar â mentoriaid a thiwtoriaid ar effaith eu haddysgu ar ddysgu disgyblion.

Mae gan y rhaglen ffocws clir ar Gwricwlwm i Gymru sydd wedi'i integreiddio'n dda. Mae athrawon dan hyfforddiant yn archwilio medrau dylunio cwricwlwm a medrau trawsgwricwlaidd trwy unedau wedi'u haddysgu a thasgau yn yr ysgol. Cânt eu hannog i fyfyrio'n feirniadol ar sut mae eu profiadau'n cyd-fynd â gwerthoedd a disgwyliadau'r cwricwlwm. Er bod y rhaglen yn darparu cyfleoedd i diwtoriaid fynd i'r afael â chamsyniadau yn ystod seminarau, mae cysondeb ac ansawdd y cymorth hwn yn amrywio. O ganlyniad, nid yw ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn datblygu dealltwriaeth ddigon clir o holl egwyddorion allweddol y cwricwlwm, fel diben camau cynnydd.

Mae'r bartneriaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau Cymraeg myfyrwyr o'u mannau cychwyn gwahanol trwy ddisgwyliadau clir, cymorth teilwredig ac ystod o gyfleoedd strwythuredig ac anffurfiol sy'n adlewyrchu lefelau hyfedredd amrywiol y myfyrwyr. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol ac iaith athrawon dan hyfforddiant yn briodol. Mae modiwlau ar-lein yn annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu medrau personol a deall sut mae'r rhain yn cysylltu â fframweithiau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Er bod cymorth ychwanegol ar gael i helpu athrawon dan hyfforddiant i gryfhau eu medrau personol, fel ysgrifennu academaidd, nid yw hyn yn cael effaith ddigon cryf ar wella eu gallu i ysgrifennu'n gywir ac yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r mentoriaid yn meithrin perthynas waith gref a chefnogol ag athrawon dan hyfforddiant, gan greu amgylchedd cadarnhaol sy'n meithrin ymddiriedaeth a hyder. Dangosant frwdfrydedd gwirioneddol ac ymrwymiad clir i helpu athrawon dan hyfforddiant i lwyddo.

Mae llawer o diwtoriaid a mentoriaid yn dangos gwybodaeth addas am y pwnc a'r cyfnod ac, mewn ychydig o achosion, maent yn rhannu enghreifftiau gwerthfawr go iawn o'u profiadau eu hunain yn ystod sesiynau sy'n cael eu haddysgu. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn briodol i greu cysylltiadau perthnasol rhwng theori ac arfer addysgol. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth a dealltwriaeth tiwtoriaid o'r dulliau, strategaethau a'r egwyddorion sy'n cael eu defnyddio i baratoi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol ar gyfer y proffesiwn a sut mae'r rhain yn cysylltu â chyd-destunau dysgu o bell, yn amrywio.

At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn cynllunio a chyflwyno sesiynau a seminarau yn briodol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod briodol o adnoddau a strategaethau dysgu o bell i ennyn diddordeb myfyrwyr ac annog cyfranogiad mewn sesiynau sy'n cael eu haddysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan sesiynau nodau clir sy'n helpu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant yn raddol dros gyfnod. Mae cyfraniadau gan ysgolion arweiniol y bartneriaeth yn darparu ychydig o gyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr ehangu eu mewnwelediad i arfer yn yr ysgol, er enghraifft yn ymwneud â Chwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw tiwtoriaid a mentoriaid yn annog athrawon dan hyfforddiant i fyfyrio'n ystyrlon ar eu dysgu a'u profiadau blaenorol, nac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i archwilio themâu a damcaniaethau academaidd sy'n herio meddwl beirniadol myfyrwyr.

Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn defnyddio ystod briodol o ddulliau i asesu cyflawniadau a chynnydd myfyrwyr. Mae tasgau asesu yn berthnasol ac yn cefnogi datblygiad athrawon dan hyfforddiant yn briodol. Mae tiwtoriaid yn asesu cyflwyniadau aseiniadau myfyrwyr yn ddiwyd, gan ddarparu sylwadau ffurfiannol trwy gydol y testun, ochr yn ochr â chrynodeb sydd â'r bwriad o gefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r adborth ysgrifenedig hwn yn gefnogol bron bob tro ac, at ei gilydd, mae'r broses asesu yn adeiladol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad yn ansawdd adborth ysgrifenedig tiwtoriaid. Mae lleiafrif o asesiadau tiwtoriaid yn rhy hael ac mae ychydig ohonynt yn canmol gwybodaeth bynciol ac addysgegol myfyrwyr, yn hytrach na nodi diffygion nodedig yn y meysydd hyn. Er bod llawer o diwtoriaid yn gosod targedau perthnasol sy'n adlewyrchu sylwebaeth eu hadborth, nid yw'r adborth a'r graddau a ddyfernir yn cyd-fynd bob tro. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw tiwtoriaid yn darparu arweiniad digon clir i helpu myfyrwyr i wella eu gwaith. Maent yn anwybyddu diffygion pwysig mewn llythrennedd disgyblion, fel gwendidau o ran adeiladu brawddegau ac arddull ysgrifennu.

Mae bron pob un o'r mentoriaid yn cynnal perthynas gadarnhaol ag athrawon dan hyfforddiant yn ystod cyfnodau ymarfer dysgu ac yn dangos gofal tuag at eu lles. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae ansawdd y mentora'n rhy amrywiol ar draws y bartneriaeth. Mae hyn yn golygu nad yw pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn gallu manteisio ar safon ddigon uchel o gefnogaeth ar gyfnod mor hanfodol o'u datblygiad proffesiynol. Mewn ychydig o achosion, mae mentora'n fuddiol dros ben i ddatblygiad athrawon dan hyfforddiant. Mae'n eu cynorthwyo i ddod yn ymarferwyr myfyriol sy'n gwerthuso eu haddysgu trwy ystyried y gwahaniaeth y mae eu haddysgu yn ei wneud i ddysgu disgyblion. Yn gyffredinol, mae mentora myfyrwyr ar y llwybr cyflogedig yn gryfach ac yn fwy effeithiol nag ar gyfer yr athrawon dan hyfforddiant hynny sy'n dilyn y llwybr rhan-amser. Yn aml, mae hyn oherwydd bod myfyrwyr ar y llwybr cyflogedig wedi meithrin perthynas gynaliadwy ag athrawon yn eu gweithle, sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus llwyddiannus.

Gwna tua hanner y mentoriaid arsylwadau a gwerthusiadau cywir. Fodd bynnag, yn rhy aml, maent yn cyflwyno barn rhy gadarnhaol o ansawdd addysgu myfyrwyr. Yn yr achosion hyn, mae mentora'n dueddol o ganolbwyntio'n gul ar strategaethau rheoli'r ystafell ddosbarth neu'n disgrifio'r hyn a wnaeth y myfyrwyr yn ystod pob cam o'r wers yn unig. Er bod hyn yn bwysig, mae'n aml ar draul annog myfyrio'n ddyfnach ar effaith addysgu'r myfyriwr ar ddysgu disgyblion. Mae cefnogaeth i gynllunio gwersi athrawon dan hyfforddiant yn anghyson, ac anaml iawn y mae mentoriaid yn trafod cynnydd myfyrwyr wrth ddatblygu eu medrau gwerthuso, neu'n cynnig cefnogaeth benodol ar eu cyfer.

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i fyfyrio'n briodol ar eu cynnydd tuag at dargedau proffesiynol cytûn a gosod nodau addas ar gyfer gwersi yn y dyfodol. Mae lleiafrif o fentoriaid yn defnyddio'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn effeithiol mewn trafodaethau, gan helpu athrawon dan hyfforddiant i fesur eu cynnydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae mentoriaid yn darparu arweiniad cyfyngedig, gan gynnig ychydig iawn o anogaeth i fyfyrwyr drafod eu camau nesaf. O bryd i'w gilydd, mae targedau'n generig neu ni chânt eu newid dros nifer o wythnosau, sy'n cyfyngu ar dwf proffesiynol myfyrwyr. Ar draws rhaglenni, anaml iawn y mae mentoriaid yn creu cysylltiadau rhwng y rhaglen sy'n cael ei haddysgu yn y brifysgol ac arfer yr athro dan hyfforddiant. Mewn ychydig o achosion, mae gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig mentoriaid o gyfnod oedran neu bwnc penodol yn arwain at atgyfnerthu dulliau addysgegol amhriodol a cholli cyfleoedd i fynd i'r afael â chamsyniadau myfyrwyr.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:

Mae'r bartneriaeth yn darparu amgylchedd strwythuredig a chefnogol sy'n helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu gwerthoedd proffesiynol cryf. Mae'r rhaglen yn meithrin gwydnwch y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn llwyddiannus ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r

gwerthoedd craidd a'r anianau sydd eu hangen i fod yn athro yng Nghymru yn yr 21ain ganrif. At ei gilydd, mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd dysgu cyfunol amrywiol, priodol i fyfyrwyr ymgysylltu â theori ac arfer addysgol ac archwilio lle ymchwil mewn datblygu arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae arweiniad clir ac ymarferol i ddatblygu dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o sut i feithrin cymunedau ysgol cynhwysol a pharchus. Gall myfyrwyr fanteisio ar adnoddau addysgu gwerthfawr sy'n dyfnhau eu dealltwriaeth o faterion pwysig, fel gwahaniaethu crefyddol a hiliol, ac yn eu cynorthwyo i weithio â disgyblion o gefndiroedd amrywiol mewn modd sensitif ac empathig. Mae diweddariadau rheolaidd, gan gynnwys bwletinau wythnosol, yn cynnig cyngor pwrpasol i fyfyrwyr i lywio eu harfer yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o barch, urddas a hawliau plant.

Yn rhan o ddatblygiad parhaus ei rhaglenni, mae'r bartneriaeth yn gwerthfawrogi adborth gan athrawon dan hyfforddiant. Mae'n annog llais y myfyriwr trwy ddulliau fel y 'Senedd Fach' ac yn defnyddio'r fforwm hwn i wneud addasiadau ystyriol i agweddau ar y ddarpariaeth, gan gynnwys cynnwys tiwtorialau a chymorth lles. Er enghraifft, mae myfyrwyr sy'n 'Llysgenhadon Lles' wedi cyfrannu at ddatblygu pecyn cymorth lles a'r llawlyfr lles i fyfyrwyr. O ganlyniad, gall athrawon dan hyfforddiant fanteisio ar ystod o adnoddau a grëwyd gan fyfyrwyr ac er eu cyfer, sy'n cynnig strategaeth ymarferol i gefnogi lles chynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd.

Mae staff y brifysgol yn cefnogi lles a chynnydd athrawon dan hyfforddiant yn eu dysgu trwy systemau tra ystyriol sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o anghenion personol. Maent yn ymatebol i natur amrywiol carfanau o fyfyrwyr ac yn cynnig cymorth teilwredig, gan gynnwys ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff arbenigol yn cydweithio'n llwyddiannus ag unigolion i ddatblygu cynlluniau gweithredu a rhoi addasiadau priodol ar waith, er mwyn sicrhau y gellir manteisio'n deg ar ddysgu. Mae mentrau fel 'caffis cymorth' yn cynnig mannau cynhwysol i fyfyrwyr niwroamrywiol, tra bod y 'grŵp dyfodol amrywiol' yn cynnig cymorth ychwanegol buddiol i fyfyrwyr LHDTC+ a'r rhai o'r mwyafrif byd-eang. Mae'r camau gweithredu hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at amgylchedd dysgu sy'n cefnogi cynhwysiant a lles myfyrwyr.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu system gadarn i olrhain cynnydd myfyrwyr a darparu ymyriadau amserol, er enghraifft i'r rhai y mae eu hamgylchiadau'n golygu eu bod yn agored i dangyflawni. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod o ddata a gwybodaeth am athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys deilliannau profiadau ymarfer dysgu myfyrwyr, samplau o'u cynlluniau gwersi a ffurflen arsylwi gwersi mentoriaid, i fonitro cynnydd, lles ac ymgysylltiad myfyrwyr yn rhan o'r broses 'adolygu cynnydd myfyrwyr'. Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn ystod cyfarfodydd adolygu carfan tymhorol i werthuso pa mor dda y mae myfyrwyr yn symud ymlaen ar y cwrs ac i nodi unrhyw

rwystrau rhag cyflawni a'u taith tuag at SAC. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw’r bartneriaeth yn archwilio effaith mentora ar gynnydd myfyrwyr unigol yn ddigon da, yn rhan o ddarlun cyffredinol eu datblygiad.

Mae tiwtoriaid cwricwlwm yn defnyddio ‘fframwaith adolygu medrau’r’ bartneriaeth yn briodol i fonitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant o ran datblygu eu medrau personol. Defnyddiant dystiolaeth o gynllunio a gwerthusiadau athrawon dan hyfforddiant i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae’r bartneriaeth hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi’r datblygiad hwn, gan gynnwys y gallu i fanteisio ar adnoddau ar-lein. Mae’r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gweld yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol, yn enwedig yr archwiliadau medrau, sy’n eu harwain i nodi meysydd penodol i’w gwella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio’r cymorth llythrennedd sydd ar gael yn effeithiol i wella eu hysgrifennu.

Dros gyfnod, mae’r bartneriaeth wedi datblygu a mireinio ei ‘fframwaith cymorth i fyfyrwyr’ i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant sy’n cael anawsterau, fel heriau yn ymwneud â rheoli eu hymddygiad proffesiynol a’u llwyth gwaith. Mae tiwtoriaid y brifysgol, tiwtoriaid ymarfer a chydlynwyr ysgolion yn defnyddio’r fframwaith yn effeithiol i nodi anghenion myfyrwyr unigol a gosod targedau tymor byr ar gyfer gwella. Mae’r broses hon yn annog athrawon dan hyfforddiant i berchnogi eu datblygiad trwy nodi’r camau y mae angen iddynt eu cymryd, ystyried pwy sydd ynghlwm ac ymrwymo i amserlenni.

Mae pob un o diwtoriaid y cwricwlwm ac arfer yn cael hyfforddiant lles ac iechyd meddwl i gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol. Mae arweiniad clir i fyfyrwyr ar sut i fanteisio ar wasanaethau cymorth y brifysgol, ynghyd â thiwtorialau ar reoli llwyth gwaith, meddylgarwch a chynllunio ariannol. Mae cymorth ychwanegol ar gael trwy ganolfan gymorth y Brifysgol Agored a’i chyfleuster ar-lein 24/7. Nid yw cymorth y bartneriaeth i baratoi myfyrwyr ar gyfer trefniadau sefydlu fel athrawon newydd gymhwyso, neu ar gyfer gwneud dewisiadau gyrfa gwybodus, wedi’i ddatblygu cystal.

At ei gilydd, mae’r bartneriaeth rhwng y brifysgol a’r ysgolion ymarfer dysgu yn cynnig cefnogaeth fugeiliol gref i fyfyrwyr. Mae cyfathrebu rhwng myfyrwyr, mentoriaid a thiwtoriaid cwricwlwm yn helpu i sicrhau y caiff lles myfyrwyr ei fonitro’n llwyddiannus yn ystod lleoliadau. Mae tiwtoriaid y brifysgol ar gael trwy sesiynau galw heibio a sgyrsiau rheolaidd, lle maent yn cynnig cefnogaeth werthfawr un-i-un. Fodd bynnag, nid yw’r rhaglen yn cynnig cyfleoedd strwythuredig ar hyn o bryd i athrawon dan hyfforddiant gydweithio â’u cymheiriaid mewn ysgolion eraill. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt rannu profiadau, trafod heriau a dysgu oddi wrth arfer ei gilydd.

Mae’r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu medrau arweinyddiaeth, fel rheoli cynorthwywyr addysgu a chyfrannu at ddysgu proffesiynol ysgol gyfan. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae myfyrwyr yn gwella eu rhinweddau personol a

phroffesiynol trwy arwain ar agweddau ar ddatblygu'r ysgol, fel gwella darpariaeth ddysgu awyr agored ar gyfer disgyblion iau.

Yn gyffredinol, mae'r rhaglen sy'n cael ei haddysgu gan y brifysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i athrawon dan hyfforddiant ymgysylltu ag ystod eang o ymchwil a datblygu eu gwybodaeth am sut gall dysgu wedi'i seilio ar ymholiad gefnogi arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Ar y cyfan, mae'r rhaglen yn cefnogi myfyrwyr i ennill dealltwriaeth addas o sut i ddefnyddio data a gwybodaeth am berfformiad i gefnogi eu hymchwil weithredu. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau gorau, mae tiwtoriaid yn annog myfyrwyr yn effeithiol i werthuso cryfderau a chyfyngiadau eu hymchwil yn feirniadol, ynghyd â'i pherthnasedd i'w haddysgu o ddydd i ddydd. Mae'r gynhadledd ymchwil flynyddol sy'n cael ei chynnal tua diwedd dwy flynedd astudio'r myfyrwyr yn cynnig cyfle gwerthfawr i fyfyrwyr rannu eu canfyddiadau â thiwtoriaid, ysgolion a'i gilydd, gan hybu ymgysylltiad proffesiynol a myfyrio ar ddulliau addysgu. Mae'r myfyrwyr hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch ysgolheigaidd proffesiynol a chyhoeddi canfyddiadau ymchwil yn gynnar yn eu gyrfaoedd.

Mae'r bartneriaeth yn hybu diwylliant diogelu, gan gynnwys arferion recriwtio diogel ar gyfer staff ac athrawon dan hyfforddiant. Mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n cydymffurfio â gofynion ac arweiniad statudol Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr arolygiad, nododd y tîm ychydig iawn o agweddau ar ddiogelu yr oedd angen eu cryfhau. Mae'r rhain wedi cael eu datrys yn gyflym ac yn gynhwysfawr. Nid yw trefniadau'r bartneriaeth yn peri pryder.

Mae gweithdrefnau priodol ar gyfer monitro presenoldeb myfyrwyr yn ystod sesiynau'r brifysgol a phrofiadau mewn ysgolion. Mae'r bartneriaeth yn dechrau olrhain presenoldeb y garfan yn bwrpasol i nodi tueddiadau mewn absenoldebau dros gyfnod i lywio ei hunanwerthusiad.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth:

Mae gan y bartneriaeth sail resymegol glir a chroyw ar gyfer ei chyfranogiad mewn addysg gychwynnol athrawon, sy'n cyd-fynd yn gryf â'i chenhadaeth ddinesig a'i hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i adlewyrchu yn ei huchelgais i amrywio'r gweithlu addysg a mynd i'r afael â phrinder athrawon ar gyfer pynciau penodol wrth recriwtio. Mae ysgolion yn cefnogi cenhadaeth y bartneriaeth i ehangu mynediad i'r proffesiwn. Mae'r rhai sy'n cefnogi myfyrwyr ar y llwybr cyflogedig yn gwerthfawrogi'r cyfle i alluogi eu staff i ddilyn gyrfa addysgu.

Mae'r Cyfarwyddwr AGA wedi croesawu'r her o ddatblygu llwybrau newydd ar gyfer hyfforddi athrawon yng Nghymru ac mae'n adeiladu tîm ymrwymedig i gefnogi'r gwaith hwn. Gan adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, mae'r bartneriaeth yn ymgysylltu'n dda ag

awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion i hybu llwybrau AGA. Mae'r cyfarwyddwr wedi cyflwyno ystod o systemau gwerthfawr sy'n cefnogi arwain a gwella ac yn ymateb yn rhagweithiol i adborth allanol. Mae ei hymdrechion yn helpu i feithrin ethos o gydymddiriedaeth, sy'n dechrau cryfhau gallu arweinyddiaeth ar draws y bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth yn ymgysylltu'n dda â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys ehangu mynediad, datblygu'r Gymraeg a chynyddu cyfran yr athrawon dan hyfforddiant Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol. Mae strategaethau i gefnogi recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg a Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol , fel ymgyrchoedd targedig ac ymgysylltu ar lawr gwlad, yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol. Mae'r bartneriaeth hefyd yn datblygu ymatebion creadigol i heriau allweddol, gan gynnwys cyflwyno deunyddiau dysgu proffesiynol anghydamserol ar gyfer mentoriaid, defnyddio technoleg ar-lein i gynorthwyo myfyrwyr i fyfyrio, a system gyfeillion i gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion. Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu diwylliant cynyddol o arloesi.

Mae strwythurau arweinyddiaeth yn y bartneriaeth wedi'u trefnu'n glir ag elfennau strategol a gweithredol penodol sy'n cyd-fynd yn briodol â systemau arweinyddiaeth ehangach y brifysgol. Er mwyn ymateb i faint cynyddol y bartneriaeth, mae uwch arweinwyr wedi ailstrwythuro prosesau llywodraethu yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae ychydig o agweddau ar y trefniadau diwygiedig hyn yn esblygu o hyd ac nid ydynt wedi cael yr effaith a ddymunir ar arfer na darpariaeth hyd yn hyn.

Mae ysgolion arweiniol yn dangos ymrwymiad cryf i'r bartneriaeth. Maent wedi'u cynrychioli'n dda mewn strwythurau arweinyddiaeth ac yn chwarae rôl strategol bwysig mewn dylunio a chyflwyno'r rhaglen TAR. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at seminarau ddwywaith y flwyddyn sy'n archwilio themâu trawsbynciol yng Nghwricwlwm i Gymru, a luniwyd ar y cyd â'r brifysgol. Mae cyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi'u datganoli'n synhwyrol mewn rhai meysydd, fel rôl tiwtoriaid ymarfer arweiniol, sy'n goruchwylio'r adolygiad o ymarfer yn yr ysgol ac sy'n gyfrifol am nodi materion ar draws clystyrau ysgolion. Mae cydlynwyr ysgolion hefyd yn teilwra dysgu proffesiynol ar gyfer mentoriaid ac wedi cryfhau eu cyfraniad at sicrhau arfer gyson ar draws ysgolion. Mae llais y myfyriwr yn dechrau dylanwadu ar arweinwyr y bartneriaeth trwy waith y Senedd Fach, sy'n darparu llwyfan i fyfyrwyr gyfrannu at benderfyniadau.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, nid yw systemau arweinyddiaeth yn ddigon effeithlon nac effeithiol ar hyn o bryd i ysgogi uchelgeisiau'r bartneriaeth nac i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Yn benodol, mae cynnwys ysgolion arweiniol ar bob lefel o lywodraethu yn dueddol i lesteirio penderfyniadau amserol. Er bod arweinwyr yn amlwg wedi ymrwymo i nodau cyffredinol y bartneriaeth, nid ydynt yn rhannu dealltwriaeth ddigon clir na manwl o flaenoriaethau strategol y bartneriaeth.

Ers iddi gael ei sefydlu, mae’r bartneriaeth wedi ehangu i gynnwys ysgolion ledled Cymru. O ystyried natur dysgu o bell y ddarpariaeth, mae arweinwyr y bartneriaeth wedi pwysleisio’r angen am gyfathrebu clir. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion sylweddol i sicrhau y caiff negeseuon allweddol eu rhannu, mae cyfathrebu ar draws ehangder y bartneriaeth yn gyfyngedig o ran ei effeithiolrwydd cyffredinol. Mewn gormod o achosion, nid yw mentoriaid ysgolion yn cael gwybodaeth bwysig yn brydlon, sy’n eu gadael yn ansicr ynghylch disgwyliadau’r rhaglen ac yn llesteirio ymdeimlad yr ysgolion o berthyn i’r bartneriaeth ehangach.

Mae systemau i hybu cysondeb o ran ansawdd ar draws y bartneriaeth yn datblygu, ond nid yw strwythurau ar gyfer trefnu arweinyddiaeth gydweithredol ar draws y bartneriaeth ehangach wedi’u sefydlu’n ddigon da. Yn benodol, mae gormod o amrywioldeb yn y ffyrdd y mae’r gwahanol rolau i gefnogi myfyrwyr mewn ysgolion yn cael eu cyflawni. Nid yw prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer elfennau o’r rhaglen sydd wedi’u lleoli mewn ysgolion yn gadarn. Er enghraifft, nid yw’n glir sut caiff ysgolion arweiniol a thiwtoriaid ymarfer arweiniol eu dwyn i gyfrif am eu rolau o ran cefnogi athrawon dan hyfforddiant ac ansawdd mentora. Yn yr un modd, mae diffyg eglurder ynghylch sut yr eir i’r afael â phryderon yn ymwneud ag effeithiolrwydd lleoliadau ysgol. Er bod prosesau clir ar gyfer dewis a dad-ddewis ysgolion y bartneriaeth, mae gorddibyniaeth ar ddulliau anffurfiol o ddatrys problemau. Yn rhy aml, mae datrys problemau’n dibynnu ar berthnasoedd personol yn hytrach na systemau strwythuredig. Mae diffyg prosesau ffurfiol yn cyfyngu ar allu’r bartneriaeth i fonitro cynnydd neu sicrhau gwelliannau cyson mewn ymarfer.

Mae model ariannu’r bartneriaeth yn addas i’r diben ac yn cyd-fynd yn briodol â’i blaenoriaethau. Mae systemau cyllid cadarn ar waith ar lefel y brifysgol i graffu ar benderfyniadau gwariant. Mae hyn yn sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio’n synhwyrol i gefnogi nodau cyffredinol y bartneriaeth.

Mae systemau addas i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae hunanwerthuso’n nodwedd reolaidd o weithgarwch is-bwyllgorau a phwyllgorau’r bartneriaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio adroddiadau arholwyr allanol a chymedroli i adolygu gwaith y bartneriaeth ac yn defnyddio arolygon myfyrwyr a staff yn gyson i lywio eu gwerthusiad o raglenni. Fodd bynnag, mae’r bartneriaeth yn dibynnu gormod ar ddeilliannau arolygon, sy’n aml yn cael eu hystumio gan gyfraddau ymateb isel. O ganlyniad, nid yw dilysrwydd canfyddiadau bob tro’n gadarn.

Mae casglu tystiolaeth uniongyrchol yn dechrau llywio prosesau gwerthuso, er enghraifft gyda thiwtoriaid ymarfer arweiniol yn cyfrannu trwy gymedroli dysgu a chynnydd athrawon dan hyfforddiant a’u cyfranogiad mewn gweithgareddau monitro mewn ysgolion. Mae’r bartneriaeth yn datblygu ei systemau sicrhau ansawdd trwy ymweliadau ysgol wyneb-yn-wyneb sy’n cynnwys staff y brifysgol. Mae’r ymweliadau hyn yn cynnig

cyfleoedd i diwtoriaid hybu mwy o gysondeb yn y modd y mae mentoriaid yn asesu cynnydd athrawon dan hyfforddiant a gwella eu dealltwriaeth o sut mae ysgolion yn cefnogi datblygiad athrawon dan hyfforddiant. Serch hynny, mae'r arferion hyn yn eu camau cynnar iawn o hyd ac maent yn wirfoddol i ysgolion ar hyn o bryd. O ganlyniad, ni chânt eu cymhwyso'n gyson nac yn ddigon trylwyr ar draws y bartneriaeth. At ei gilydd, mae arsylwi uniongyrchol cyfyngedig o addysgu a mentora ac, o ganlyniad, nid oes gan y bartneriaeth olwg gynhwysfawr ar ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella, oherwydd nid yw'n defnyddio ystod ddigon eang o dystiolaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r bartneriaeth i driongli canfyddiadau a gwerthuso darpariaeth yn gywir.

Mae cynllun datblygu'r bartneriaeth yn nodi blaenoriaethau priodol a chamau gweithredu cysylltiedig sydd wedi'u seilio ar bryderon cenedlaethol mewn AGA. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd ac effaith y rhain yn briodol ar ddeilliannau arfaethedig. Er enghraifft, cydnabu arweinwyr yr angen i gasglu data mwy ystyrlon ynghylch agweddau ar safonau SAC, felly cyflwynont 'adolygiad medrau' defnyddiol. Mae hyn wedi canolbwyntio'n dda ar agweddau pwysig ar arfer myfyrwyr, fel ansawdd cynllunio gwersi. Mae tiwtoriaid yn defnyddio deilliannau o'r adolygiad medrau i wneud newidiadau priodol i sesiynau sy'n cael eu haddysgu ac mae hyn yn dechrau datblygu dealltwriaeth myfyrwyr Blwyddyn 1 o sut i gynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw arweinwyr yn nodi blaenoriaethau gwella'n ddigon penodol oherwydd diffyg tystiolaeth uniongyrchol ac, o ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer gwella yn ddigon manwl nac wedi'i dargedu'n ddigonol i gael yr effaith a ddymunir.

Mae model llywodraethu'r bartneriaeth wedi cael ei addasu i gryfhau atebolrwydd trwy ganoli cyfrifoldebau dros gynllunio ar gyfer gwelliant o fewn pwyllgor y bartneriaeth. Er bod is-bwyllgorau'n goruchwylio agweddau penodol ar y rhaglen ac yn llunio cynlluniau gweithredu, mae'r cydweddiad rhwng y cynlluniau hyn a nodau cyffredinol y bartneriaeth yn aneglur. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau addas i'w prosesau cynllunio trwy gyflwyno grwpiau gorchwyl a gorffen i gefnogi eu gallu i ysgogi gwelliant.

Mae'r bartneriaeth yn dangos ymrwymiad cryf i ymchwil ac ysgolheictod, sydd wedi'i ymwreiddio yn y rhaglen TAR trwy ffocws clir ar ymholiadau wedi'u seilio ar ymarfer. Mae aelodau'r tîm TAR yn cyfrannu at fentrau ymchwil ehangach y brifysgol ac, mewn ychydig o achosion, mae mentoriaid a myfyrwyr yn cyfrannu at brosiectau ymchwil cydweithredol sy'n canolbwyntio ar agweddau pwysig ar ymarfer addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn ar ddeilliannau myfyrwyr neu ansawdd yr addysgu.

Mae gan y bartneriaeth ymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol. Mae staff y brifysgol yn gwerthfawrogi'r diwylliant sefydledig o ddatblygiad proffesiynol ar draws y brifysgol a'r strwythurau cefnogol sy'n eu helpu i ddilyn eu dyheadau a chyflawni eu nodau gyrfa, yn

enwedig o ran dod yn fwy gweithredol ym maes ymchwil. O ganlyniad i'r cymorth effeithiol hwn, mae'r rhan fwyaf o staff y brifysgol yn gweithio tuag at, neu wedi cyflawni, cymhwyster lefel doethuriaeth.

Bu datblygu rôl cymrawd ymchwil yn hanfodol i sefydlu'r diwylliant ymchwil sy'n dod i'r amlwg o fewn y bartneriaeth. Rhan bwysig o'r dull hwn fu meithrin medrau a hyder mentoriaid i gymryd rhan mewn ymchwil ymarferydd. Bu hyn o fudd i ychydig o fentoriaid yn ysgolion y bartneriaeth, sydd bellach yn dechrau cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil. Mae'r dull hwn hefyd wedi helpu i godi proffil addysg gychwynnol athrawon yn ehangach ar draws y brifysgol.

Mae staff y brifysgol yn elwa ar ddysgu proffesiynol sy'n datblygu eu medrau fel tiwtoriaid dysgu o bell, gan wneud defnydd da o arbenigedd y brifysgol yn y maes hwn. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod nad yw dysgu proffesiynol ar gyfer mentoriaid a thiwtoriaid mewn ysgolion sy'n cyfrannu at raglen y brifysgol sy'n cael ei haddysgu wedi cael effaith ddigon cryf eto ar effeithiolrwydd y sesiynau addysgu hyn.

Mae'r brifysgol yn cynnig rhaglen datblygu mentoriaid cyffredinol 'Open Learn', sydd ar gael i bob mentor. Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am egwyddorion cyffredinol mentora a rôl mentoriaid fel addysgwyr athrawon. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae ymgysylltiad mentoriaid â'r rhaglen hon yn y bartneriaeth, a'i dylanwad ar ansawdd mentora, yn gyfyngedig.

Yn gyffredinol, mae mentoriaid wedi buddsoddi'n fawr yn eu rôl ac yn ystyried mentora athrawon dan hyfforddiant yn rhan bwysig o'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Caiff mentoriaid newydd hyfforddiant cychwynnol priodol, sy'n ymdrin yn bennaf ag agweddau gweinyddol y rôl, fel amseriad arsylwadau o addysgu myfyrwyr a gofynion adrodd. Fodd bynnag, nid yw datblygiad ar gyfer mentoriaid wedi canolbwyntio ar sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rôl yng nghyd-destun dysgu cyfunol, na sut i gefnogi grŵp amrywiol o athrawon dan hyfforddiant sydd â mannau cychwyn amrywiol.

Mae mentoriaid yn gwerthfawrogi'r deunyddiau a ddarperir i gefnogi eu rôl, fel y 'matiau mentoriaid' a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n cynnig trosolwg clir o'u cyfrifoldebau. Mae'r adnoddau hyn yn dechrau meithrin hyder, yn enwedig ymhlith mentoriaid nad ydynt yn ysgolion arweiniol y bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau hyn wedi mynd i'r afael â'r amrywiad yn ansawdd mentora. Yn ogystal, nid oes digon o gyfleoedd i fentoriaid rannu arfer effeithiol ar draws y bartneriaeth.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad o addysg gychwynnol athrawon, sy'n cynnwys darpariaeth dysgu o bell, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau dysgu ar-lein i arsylwi athrawon dan hyfforddiant yn dysgu a gweld staff y brifysgol a staff ysgolion yn addysgu ar y rhannau o'r rhaglen sydd wedi'u lleoli yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu
- yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd myfyrwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion dysgu a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994, a osodwyd trwy baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2025